OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 417

## Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2022

## RHAN 6

### Dirymu a darpariaeth drosiannol

**Dirymu a darpariaeth drosiannol**

**45.**—(1) Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020(**1**) ("Gorchymyn 2020") wedi ei ddirymu.

(2) Mae gweithiwr amaethyddol a gyflogir fel gweithiwr ar Radd neu fel prentis, ac sy'n ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau a ragnodwyd yng Ngorchymyn 2020 neu unrhyw Orchmynion blaenorol, yn ddarostyngedig, o'r dyddiad y mae'r Gorchymyn hwn yn cymryd effaith, i'r telerau a'r amodau a nodir yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn hwn.

(3) Yn yr erthygl hon ystyr "Gorchmynion blaenorol" yw Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2020(**2**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2019(**3**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2018(**4**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017(**5**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2016(**6**), Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 2012 a phob gorchymyn a ddirymwyd gan erthygl 70 o'r Gorchymyn hwnnw.

(**1**) O.S. 2020/347 (Cy. 78).
(**2**) O.S. 2020/347 (Cy. 78).
(**3**) O.S. 2019/511 (Cy. 118).
(**4**) O.S. 2018/433 (Cy.76).
(**5**) O.S. 2017/1058 (Cy. 271).
(**6**) O.S. 2016/107 (Cy. 53).